Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2023 – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4076A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mewn achos o dderbyn cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corrresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwilio cyfrifon 7

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau 9

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 16

Atodiad 2 – ffi archwilio 19

Atodiad 3 – risgiau archwilio cyfrifon 20

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau fy ngwaith archwilio 2023 ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys (y Bwrdd Iechyd) a wnaed i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Senedd;
- bodloni fy hun bod gwariant ac incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol ag awdurdodau; a
- bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

2 Rwy'n adrodd ar fy nghanfyddiadau cyffredinol o dan y penawdau canlynol:

- archwilio cyfrifon
- trefniadau ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

3 Cynhaliwyd y gwaith archwilio eleni ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymateb i waddol pandemig COVID-19 wrth iddynt geisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau ac ymateb i'r galw ychwanegol yn y system sydd wedi cronni yn ystod y pandemig. Ar ben hynny, roedd cyrff iechyd hefyd yn ymdrin â set ehangach o heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinder gweithlu, ac ystad sy'n heneiddio. Dyluniwyd fy rhaglen waith, felly, er mwyn sicrhau pobl Cymru yn y modd gorau bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda.

4 Fy nod oedd sicrhau nad oedd fy ngwaith yn rhwystro cyrff cyhoeddus wrth fynd i'r afael â'r heriau ôl-bandemig y maent yn eu hwynebu, gan sicrhau ei fod yn parhau i gefnogi craffu a dysgu. Gwnaethom barhau i weithio ac ymgysylltu o bell lle bo hynny'n bosibl gan ddefnyddio technoleg, ond ailddechreuodd rhywfaint o waith archwilio ar y safle lle roedd yn ddiogel ac yn briodol gwneud hynny. Mae'n anochel bod hyn wedi cael effaith ar sut rydym yn cyflawni gwaith archwilio ond mae hefyd wedi helpu i ymgorffori newidiadau cadarnhaol yn ein ffyrdd o weithio.

5 Mae cyflawni fy ngwaith o archwilio cyfrifon wedi parhau o bell yn bennaf. Diweddarwyd safonau archwilio ar gyfer archwiliadau 2022-23, a arweiniodd at rai newidiadau sylweddol yn ein dull gweithredu. Trafodwyd y newidiadau penodol yn fanwl yn fy Nghynllun Archwilio 2023. Estynnwyd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cyfrifon archwiliedig i 31 Gorffennaf 2023. Ardystiwyd y datganiadau ariannol ar 27 Gorffennaf 2023, sy'n golygu bod y dyddiad cau wedi'i fodloni. Mae hyn yn adlewyrchu ymdrech gyfunol wych gan fy staff a swyddogion y Bwrdd Iechyd .

6 Fe wnes i hefyd addasu ffocws a dull fy ngwaith archwilio perfformiad i sicrhau ei berthnasedd yng nghyd-destun yr heriau ôl-bandemig sy'n wynebu'r GIG yng

Nghymru. Rwyf wedi gwneud sylwadau ar sut mae GIG Cymru yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad o gleifion sy'n aros am driniaethau orthopedig. Rwyf hefyd wedi cyhoeddi Adroddiad Briffio ar Ddata ynghylch Gweithlu'r GIG sy'n dwyn ynghyd ystod o fetrigau a thueddiadau i helpu i ddarlunio'r heriau y mae angen eu goresgyn yn lleol ac yn genedlaethol. Mae'r adroddiad briffio ar ddata yn ategu fy asesiadau o sut mae trefniadau cynllunio'r gweithlu cyrff GIG unigol yn eu helpu i fynd i'r afael yn effeithiol â heriau gweithlu'r presennol a'r dyfodol. Mae fy nhimoedd archwilio lleol wedi gwneud sylwadau ar drefniadau llywodraethu cyrff unigol, yn ogystal â sut maent yn ymateb i heriau a risgiau lleol penodol. Mae fy ngwaith archwilio perfformiad yn cael ei wneud yn unol â safonau archwilio INTOSAI[1].

7 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd mewn adroddiadau manylach i'r Bwrdd Iechyd eleni (gweler **Atodiad 1)**. Rwyf hefyd yn cynnwys crynodeb o'r statws gwaith sy'n dal i fynd rhagddo, ond heb ei gwblhau eto.

8 Mae **Atodiad 2** yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi i dalu costau ymgymryd â'm gwaith, o'i gymharu â'r ffi wreiddiol a nodir yng Nghynllun Archwilio 2023.

9 Mae **Atodiad 3** yn nodi'r risgiau archwilio cyfrifon a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio 2023 a sut y cawsant sylw drwy'r archwiliad.

10 Mae'r Prif Weithredwr Dros Dro, Cyfarwyddwr Cyllid a Chyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Fe wnaethom ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ar 11 Mawrth 2024. Bydd y Bwrdd yn derbyn yr adroddiad mewn cyfarfod Bwrdd diweddarach a bydd pob aelod yn derbyn copi. Rydym yn annog y Bwrdd Iechyd yn gryf i drefnu ei gyhoeddi'n ehangach. Byddwn yn sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.

11 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad drwy gydol fy archwiliad.

# Negeseuon allweddol

## Archwilio cyfrifon

12 Cyhoeddais farn archwilio wir a theg a diamod ar eich cyfrifon ar 27 Gorffennaf 2023. Roedd barn yr archwiliad mewn perthynas â rheoleidd-dra gwariant yn amodol, oherwydd bod y Bwrdd Iechyd wedi torri ei derfyn adnoddau drwy wario £6.8 miliwn dros y £1,133 miliwn yr oedd ganddo'r hawl i'w wario yn y cyfnod o dair blynedd 2020-2023.

[1] Mae INTOSAI (International Organisation of Supreme Audit Institutions) yn sefydliad ymbarél byd-eang ar gyfer y gymuned archwilio perfformiad. Mae'n sefydliad anllywodraethol sydd â statws ymgynghorol arbennig gyda Chyngor Economaidd a Chymdeithasol (ECOSOC) y Cenhedloedd Unedig.

13 Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol (a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad), fodd bynnag, fe wnes i ddod â rhai materion i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio er mwyn eu gwella.

14 Ochr yn ochr â'm barn archwilio, gosodais adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd i amlygu'r methiant i gyflawni balans ariannol.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau

15 Mae fy rhaglen o waith Archwilio Perfformiad wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:

- mae angen gweithredu ar frys ac yn gynaliadwy i fynd i'r afael â'r amseroedd aros hir ar gyfer gwasanaethau orthopedig. Mae ymrwymiad clir i wella amseroedd aros, fodd bynnag, gallai gymryd tair blynedd neu fwy i ddod â'r rhestr aros orthopedig yn ôl i lefelau cyn y pandemig.
- er gwaethaf y cynnydd yng ngweithlu'r GIG, mae swyddi gwag yn parhau mewn meysydd allweddol, lefelau uchel o salwch a throsiant staff gan arwain at orddibyniaeth ar staffio asiantaethau. Yn fwy cadarnhaol, mae GIG Cymru yn dod yn gyflogwr mwy hyblyg a chyfartal.
- mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau priodol i fynd i'r afael â'i heriau gweithlu sylweddol, gyda throsolwg da ar ei uchelgeisiau Dyfodol y Gweithlu. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i gryfhau cynllun gweithredu Dyfodol y Gweithlu a chanolbwyntio mwy ar effaith y camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i leihau risgiau ei weithlu.
- yn gyffredinol, mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol i sicrhau llywodraethu da sydd wedi cryfhau ers ein hadolygiad diwethaf. Fodd bynnag, mae cyfleoedd ar gael i wella'r trefniadau hyn ymhellach gyda ffocws penodol ar fynediad cyhoeddus at bolisïau, gan ganolbwyntio ar ofal sylfaenol, clywed oddi wrth gleifion a datblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

16 Mae'r canfyddiadau hyn yn cael eu hystyried ymhellach yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwilio cyfrifon

17 Mae paratoi cyfrifon blynyddol yn rhan hanfodol o arddangos stiwardiaeth arian cyhoeddus. Mae'r cyfrifon yn dangos perfformiad ariannol y sefydliad ac yn nodi ei asedau net, costau gweithredu net, enillion a cholledion, a llif arian parod. Mae fy archwiliad blynyddol o'r cyfrifon hynny yn rhoi barn ar eu cywirdeb a'r defnydd cywir ('rheoleidd-dra') o arian cyhoeddus.

18 Mae fy Nghynllun Archwilio 2023 yn nodi'r risgiau allweddol ar gyfer archwilio'r cyfrifon ar gyfer 2022-23 a manylir ar y rhain ynghyd â sut y cawsant sylw yn **Atodiad 3 Arddangosyn 4**.

19 Disgrifir fy nghyfrifoldebau wrth archwilio'r cyfrifon yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

## Cywirdeb a pharatoi cyfrifon 2022-23

20 Cyhoeddais farn archwilio wir a theg a diamod ar eich cyfrifon ar 27 Gorffennaf 2023. Roedd barn yr archwiliad mewn perthynas â rheoleidd-dra gwariant yn amodol, oherwydd bod y Bwrdd Iechyd wedi torri ei derfyn adnoddau drwy wario £6.8 miliwn dros y £1,133 miliwn yr oedd ganddo’r hawl i’w wario yn y cyfnod o dair blynedd 2020-2023.

21 Rhaid i mi adrodd am faterion sy'n codi o'm gwaith wrth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (y Pwyllgor Archwilio) i'w hystyried cyn i mi gyhoeddi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Adroddodd fy nhîm archwilio y materion hyn ar 21 Gorffennaf 2023. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: materion a adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio**

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau heb eu cywiro | Dewisodd y Bwrdd Iechyd beidio â chywiro nifer o faterion a nodwyd o'n harchwiliad o symiau taladwy a thaliadau ar ôl diwedd blwyddyn (gweler materion arwyddocaol eraill isod). Nid yw gwerth cronnus y gwallau hyn yn berthnasol. |
| Camddatganiadau wedi'u cywiro | I ddechrau, roedd camddatganiadau eraill yn y cyfrifon a gywirwyd gan reolwyr, a daethom â'r mwyaf arwyddocaol o'r rhain i sylw'r Pwyllgor Archwilio yn ein hadroddiad. |

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Materion arwyddocaol eraill | Nododd ein profion cychwynnol o **Symiau Taladwy a Thaliadau ar ôl Diwedd Blwyddyn** gamddatganiadau cychwynnol.<br><br>**Symiau Taladwy (Nodyn 18 – £44.2 miliwn)**<br>Profwyd sampl gychwynnol o £10.3 miliwn (29 eitem sampl), a chanfuom wyth camgymeriad dosbarthu o £1.6 miliwn, ond hefyd gorddatganiad o £119,000.<br>O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd ei adolygiad ei hun o'r balans hwn a nododd gamddosbarthu pellach o £740,000.<br>Ni wnaeth ein sampl ychwanegol o £8 miliwn (deg eitem), nodi unrhyw wallau pellach.<br><br>**Taliadau ar ôl Diwedd Blwyddyn**<br>Nododd ein sampl gychwynnol o £10.2 miliwn (22 o daliadau) ddau gamddatganiad. Un gorddatganiad o £15,000 ac un tanddatganiad o £93,000.<br>Ni nododd ein sampl ychwanegol o £2 filiwn (deg taliad) unrhyw wallau pellach.<br>Er ein bod yn fodlon bod y balansau yn berthnasol gywir, gwnaethom argymhelliad ar gyfer gwella yn y maes hwn, a dderbyniwyd gan reolwyr. |

22 Mae fy archwiliad ar wahân o'r cyfrifon cronfeydd elusennol yn parhau. Edrychaf ymlaen at gyhoeddi fy marn ym mis Ionawr 2024.

## Rheoleidd-dra trafodiadau ariannol

23 Rhaid i drafodiadau ariannol y Bwrdd Iechyd fod yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd fod â'r pwerau i dderbyn incwm ac ysgwyddo gwariant. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau hyn ac yn profi nad oes elfennau perthnasol o incwm neu wariant nad yw'r Bwrdd Iechyd yn meddu ar y pwerau i'w derbyn na'u hysgwyddo.

24 Pan nad yw Bwrdd Iechyd yn cyflawni balans ariannol, mae ei wariant yn fwy na'i bwerau i wario ac felly mae'n rhaid i mi roi barn amodol ar reoleidd-dra.

25 Roedd barn yr archwiliad mewn perthynas â rheoleidd-dra gwariant yn amodol oherwydd bod y Bwrdd Iechyd wedi torri ei derfyn adnoddau drwy wario £6.8 miliwn dros y £1,133 miliwn yr oedd ganddo'r hawl i'w wario yn y cyfnod o dair blynedd 2020-2023.

26 Mae gennyf y pŵer i gyflwyno adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â'm barn lle rwyf eisiau amlygu materion. Oherwydd y mater a nodir uchod, cyhoeddais adroddiad o sylwedd yn nodi'r manylion ffeithiol.

# Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau

27 Mae gen i ofyniad statudol i fodloni fy hun bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar waith i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- gwneud sylwadau ar sut mae GIG Cymru yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad o gleifion sy'n aros am driniaethau orthopedig;
- cyhoeddi Adroddiad Briffio ar Ddata ynghylch Gweithlu'r GIG sy'n dod ag ystod o fetrigau a thueddiadau at ei gilydd i helpu i ddarlunio'r heriau y mae angen mynd i'r afael â nhw'n lleol ac yn genedlaethol;
- adolygu effeithiolrwydd trefniadau cynllunio gweithlu y Bwrdd Iechyd;
- cynnal asesiad strwythuredig o drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, effeithiol ac yn ddarbodus.

28 Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn wedi'u nodi isod.

## Gwasanaethau Orthopedig yng Nghymru

29 Ym mis Mawrth 2023, cyflwynais sylwadau ar wasanaethau orthopedig ledled Cymru. Mae fy adroddiad cenedlaethol Gwasanaethau Orthopedig yng Nghymru – Mynd i'r Afael ag Ôl-groniad y Rhestr Aros yn nodi graddfa'r arosiadau orthopedig, newidiadau yn y galw, agweddau ar gapasiti'r gwasanaeth a rhywfaint o'r gwaith a gydlynir yn genedlaethol i foderneiddio gwasanaethau. Roedd fy adroddiad hefyd yn nodi camau allweddol y mae angen i GIG Cymru eu cymryd i fynd i'r afael â'r heriau mewn gwasanaethau orthopedig.

30 Canfu fy ngwaith fod sicrhau triniaeth amserol i bobl â phroblemau orthopedig wedi bod yn her i'r GIG yng Nghymru ers blynyddoedd lawer, gyda phandemig COVID-19 yn gwneud hyn yn sylweddol waeth. Mae arian blaenorol a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru wedi arwain at welliannau tymor byr, ond nid ydynt wedi cyflawni'r newidiadau cynaliadwy i wasanaethau a oedd yn angenrheidiol, gyda thargedau rhestrau aros orthopedig heb eu cyrraedd ers iddynt gael eu sefydlu gyntaf yn 2009.

31 Ers i effaith y pandemig leihau, mae gwasanaethau orthopedig wedi bod yn araf i ailddechrau, ac er y bydd angen i gyfundrefnau rheoli heintiau barhau i gael effaith

ar drwybwn, mae cyfle i'r capasiti presennol gael ei ddefnyddio'n fwy effeithlon. Mae fy ngwaith modelu senario yn dangos y gallai gymryd rhwng tair a phum mlynedd i ddod ag arosiadau orthopedig i lefelau cyn y pandemig ledled Cymru. Mae hyn yn seiliedig ar ymgyrch sylweddol ar gyfer atal yn y gymuned a chynnydd mewn capasiti a gweithgaredd. Heb hyn, efallai na fydd gwasanaethau byth yn dychwelyd i lefelau cyn y pandemig.

32 Canfu fy ngwaith fod ymrwymiad clir i wella gwasanaethau orthopedig. Comisiynodd GIG Cymru adolygiadau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn genedlaethol ac yn lleol, sy'n nodi cyfres o argymhellion. Comisiynwyd strategaeth glinigol genedlaethol ar gyfer orthopaedeg hefyd sy'n nodi opsiynau gwasanaeth a llais clinigol clir ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud. Fodd bynnag, mae angen gweithredu ar frys i sicrhau gwelliannau tymor byr mewn amseroedd aros i leihau'r cyfnod y mae pobl yn aros mewn poen ac anghysur, yn ogystal â chreu gwelliannau mwy cynaliadwy yn y tymor hwy.

33 Yn ogystal â'm hadroddiad cenedlaethol, nododd fy nhîm sut mae gwasanaethau orthopedig y Bwrdd Iechyd yn cymharu â byrddau iechyd eraill ledled Cymru. Amlygodd fy adroddiad cymharol fod gan y Bwrdd Iechyd:

- yr arosiadau isaf yng Nghymru, gan gynnwys cleifion sy'n aros yn hirach na blwyddyn am apwyntiad claf allanol cyntaf, a'r gyfran ail isaf o gleifion ar y rhestr aros am fwy na dwy flynedd;
- y lefel isaf o alw 'coll' cudd posib sef effaith cleifion yn peidio â mynd at eu meddyg teulu yn ystod y pandemig;
- arosiadau uwch na'r cyfartaledd am wasanaethau radioleg a ffisiotherapi;
- nifer da yn defnyddio llwybrau 'sylw yn ôl symptomau' i leihau'r galw cleifion allanol dilynol diangen.

34 Mae fy modelu senario yn dangos y gallai'r rhestr aros ar gyfer y Bwrdd Iechyd ddychwelyd i lefelau cyn y pandemig erbyn 2026, ond heb ymdrech ar y cyd gall gymryd blynyddoedd lawer i ddychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig, os o gwbl.

35 Mae fy adroddiad lleol yn nodi cyfres o awgrymiadau a chwestiynau i aelodau'r Bwrdd lywio dadl a chael sicrwydd bod camau gwella ar lefel leol yn cael yr effaith a ddymunir.

## Adroddiad briffio ar ddata ynghylch gweithlu'r GIG

36 Ym mis Medi 2023, cyhoeddais adroddiad briffio ar ddata sy'n nodi data allweddol ynghylch gweithlu GIG Cymru. Amlygodd fy adroddiad briffio dwf parhaus GIG Cymru, ac roedd yn myfyrio, mewn rhai achosion, nad yw'r twf yn lefelau staff yn enwedig mewn nyrsio a rhai arbenigeddau meddygol wedi dal i fyny â'r galw cynyddol.

37 Mae'n amlwg bod y pandemig wedi cael effaith ar staff, ac mae'r gweithlu'n parhau dan bwysau sylweddol. Mae'r tueddiadau allweddol diweddar yn dangos mwy o drosiant staff, absenoldeb oherwydd salwch a swyddi gwag. Mae hyn wedi arwain

at fwy o ddibyniaeth ar staffio asiantaethau allanol ac yn benodol costau asiantaeth uwch, hyd at £325 miliwn yn 2022-23. Mae Cymru'n tyfu ei gweithlu ei hun, gyda mwy o nyrsys a meddygon yn hyfforddi.

38 Er gwaethaf hyn, mae dibyniaeth drom o hyd ar staff meddygol o'r tu allan i Gymru, gan ddangos bod angen sicrhau bod comisiynu addysg yn cyd-fynd â'r galw, ond hefyd y gall cyrff iechyd recriwtio graddedigion digonol ar ôl iddynt gwblhau eu hyfforddiant. Mae fy adroddiad hefyd yn tynnu sylw at rai tueddiadau cadarnhaol sy'n dangos bod y GIG yn dod yn gyflogwr mwy hyblyg a chyfartal. Mae'r adroddiad briffio data yn darparu cyd-destun ar gyfer yr adolygiad lleol o gynllunio'r gweithlu y mae fy nhîm yn ei wneud ar hyn o bryd yn y Bwrdd Iechyd.

## Cynllunio'r gweithlu

39 Archwiliodd fy adolygiad pa un a oes gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol i gefnogi gwaith cynllunio'r gweithlu. Roedd yn canolbwyntio ar gynllunio strategol a gweithredol y gweithlu, sut mae'n defnyddio gwybodaeth am y gweithlu a sut mae'n gweithio gyda'i randdeiliaid i ddatblygu atebion. Roedd y gwaith hefyd yn ystyried capasiti a gallu'r sefydliad i nodi a mynd i'r afael â heriau allweddol y gweithlu tymor byr a'r tymor hir a sut mae'n monitro i weld a yw ei ddull yn gwneud gwahaniaeth.

40 Canfu fy ngwaith fod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau priodol i fynd i'r afael â'i heriau gweithlu sylweddol, gyda throsolwg da ar ei uchelgeisiau Dyfodol y Gweithlu. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i gryfhau cynllun gweithredu Dyfodol y Gweithlu a chanolbwyntio mwy ar effaith y camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i leihau risgiau ei weithlu.

41 Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu heriau sylweddol i'r gweithlu oherwydd ei natur wledig ac ôl troed daearyddol mawr, sy'n cael ei waethygu ymhellach gan drafnidiaeth gyhoeddus wael, a chyflenwad cyfyngedig o staff cymwys oherwydd bod y rhanbarth â phoblogaeth denau, bod ganddi boblogaeth sy'n heneiddio, ac nid oes ganddi brifysgol. Er i'r Bwrdd Iechyd gynyddu ei weithlu yn raddol dros y degawd diwethaf, mae cadw staff yn broblem. Y Bwrdd Iechyd sydd â'r gyfradd uchaf o drosiant staff (15%) ac un o'r cyfraddau swyddi gwag uchaf (11.7%) yng Nghymru. Cynyddodd gwariant yr asiantaeth i £10.7 miliwn yn 2022-23.

42 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n rhagweithiol gyda'i bartneriaid rhanbarthol i fynd i'r afael â heriau gweithlu presennol ac yn y dyfodol ar y cyd ac mae ganddo ddealltwriaeth dda o'r galw cyfredol gyda rhagolygon yn seiliedig ar fodelau gwasanaeth cyfredol. Er bod cynllun gweithredu i gefnogi cyflawni ei uchelgeisiau Dyfodol y Gweithlu, mae lle i gael mwy o bwyslais ar effaith, ac mae angen gwell dealltwriaeth ar y Bwrdd Iechyd o ffurf gwasanaethau yn y dyfodol.

43 Mae'r Bwrdd Iechyd yn mynd i'r afael â bregusrwydd ei Gyfarwyddiaeth y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, trwy gryfhau model gweithredu'r gyfarwyddiaeth a galluogi arweinwyr gwasanaethau gweithredol i fod yn berchen ar eu cynllunio'r gweithlu. Mae gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth dda o'r risgiau a allai atal cyflawni ei

uchelgeisiau gweithlu, ond mae camau i liniaru'r risgiau hyn wedi cael ychydig iawn o effaith hyd yma. Er gwaethaf gweithgarwch y Bwrdd Iechyd, mae heriau recriwtio, cadw a chomisiynu addysg sylweddol o hyd, sy'n arwain at ddibyniaeth uchel ar staff asiantaeth.

44 Mae Pwyllgor y Gweithlu a Diwylliant yn derbyn gwybodaeth gynhwysfawr am berfformiad y gweithlu ac mae ganddo drosolwg da ar Raglen Dyfodol y Gweithlu, ond mae angen deall yn well effaith ei chyflawni, a chyfleoedd i feincnodi gyda sefydliadau tebyg.

## Asesiad strwythuredig

45 Cynhaliwyd fy ngwaith asesu strwythuredig yn 2023 ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymdrin â gwaddol COVID-19 o ran adfer a thrawsnewid gwasanaethau ac ymateb i'r galw ychwanegol yn y system a oedd wedi cronni yn ystod y pandemig. Ar ben hynny, roeddent hefyd yn ymdrin â set ehangach o heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinder gweithlu, ac ystad sy'n heneiddio.

46 Canolbwyntiodd fy nhîm ar drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, gan ganolbwyntio'n benodol ar dryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniant y Bwrdd; systemau sicrwydd corfforaethol; dull corfforaethol ar gyfer cynllunio; a dull corfforaethol ar gyfer rheoli adnoddau ariannol. Talodd archwilwyr sylw hefyd i'r cynnydd a wnaed i fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol.

### Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniant y Bwrdd

47 Roedd fy ngwaith yn ystyried a yw Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw. Fe wnes i roi sylw arbennig i'r canlynol:

- tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd;
- trefniadau i gefnogi gwaith cynnal busnes y Bwrdd;
- strwythur y Bwrdd a'r pwyllgor, busnes, cyfarfodydd, a llif sicrwydd;
- ymrwymiad y Bwrdd i glywed oddi wrth staff, defnyddwyr, rhanddeiliaid eraill; a
- sgiliau'r Bwrdd, profiadau, cydlyniant ac ymrwymiad i wella.

48 Canfu fy ngwaith fod y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn gweithredu'n dda ar y cyfan, mae ymrwymiad i wella cydlyniant a thryloywder ond mae dal angen gwella mynediad cyhoeddus i rai dogfennau allweddol. Mae papurau bwrdd a phwyllgor o ansawdd da ar y cyfan, gyda defnydd cynyddol o ddata a graffeg ond mae angen cryfhau trosolwg ar anghenion gofal sylfaenol a gellid gwneud mwy i gael sbectrwm ehangach o brofiad cleifion.

49 Mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynnal ei fusnes yn agored ac yn dryloyw, gyda chyfleoedd i wella trefniadau ymhellach. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud defnydd da o'i wefan, ond gellir gwneud mwy i sicrhau bod cyfryngau

cymdeithasol a llwybrau cyfathrebu eraill yn cael eu defnyddio'n effeithiol i hyrwyddo ac annog ymgysylltu â busnes y Bwrdd. Byddai hefyd yn fuddiol i gofnodion heb eu cadarnhau fod ar gael i'r cyhoedd yn fuan ar ôl cyfarfodydd, er mwyn osgoi aros yn hir rhwng cyfarfodydd pwyllgorau.

50 Mae trefniadau da ar waith ar gyfer diweddaru a monitro cydymffurfiaeth â fframweithiau rheoli craidd, er bod cyfleoedd yn parhau i gynyddu hygyrchedd cyhoeddus polisïau a sicrhau bod gwefan y Bwrdd Iechyd yn cael y fersiynau diweddaraf o ddogfennau wedi'u lanlwytho. Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn gweithio'n dda gyda lefel graffu gytbwys a phriodol. Yn gyffredinol, mae papurau o safon dda, gyda data a graffeg yn cael eu defnyddio'n gynyddol i gyfleu gwybodaeth. Fodd bynnag, gallai'r Bwrdd elwa ar drosolwg cynyddol o ofal sylfaenol er mwyn bod yn sicr ei fod yn canolbwyntio ar feysydd sy'n cael effaith sylweddol ar ei boblogaeth.

51 Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i glywed oddi wrth gleifion a staff, ond gellid gwneud mwy i gael sbectrwm ehangach o adborth. Mae angen i'r Bwrdd a'r pwyllgorau glywed profiadau cadarnhaol a negyddol. Er ei bod yn gadarnhaol fod y Bwrdd Iechyd wedi ailgyflwyno troeon y Bwrdd, mae lle i'r Bwrdd Iechyd ffurfioli'r broses hon. Mae'r Bwrdd yn gydlynol ar ôl cyfnod anwadal ac yn dangos ymrwymiad cadarnhaol i welliant parhaus, er bod lle o hyd i gryfhau effeithiolrwydd pwyllgorau.

## Systemau sicrwydd corfforaethol

52 Ystyriodd fy ngwaith pa un a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull gweithredu corfforaethol cadarn i reoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Talais sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer y canlynol:

- goruchwylio risgiau strategol a chorfforaethol;
- goruchwylio perfformiad sefydliadol;
- goruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau;
- tracio argymhellion.

53 Canfu fy ngwaith nad oes gan y Bwrdd Iechyd Fframwaith Sicrwydd Bwrdd wedi'i ddiweddaru o hyd, ac o ganlyniad ni ellir sicrhau bod risgiau wedi'u halinio er bod trefniadau rheoli risg ar waith. Mae trefniadau rheoli perfformiad wedi'u diweddaru yn gwneud gwell defnydd o ddata, ond mae angen craffu ar ddiweddariadau i'r Fframwaith Ansawdd Clinigol a thracio argymhellion archwilio yn fwy cyson.

54 Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cwblhau ei ddiweddariad i'w Fframwaith Sicrwydd Bwrdd (FfSB) eto sef y mecanwaith i ddod â'r holl wybodaeth berthnasol ynghyd ar y risgiau i'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau strategol y sefydliad. Mae hwn yn fwlch parhaus mewn llywodraethu. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd ac wedi datblygu'r holl gydrannau perthnasol, ond mae hwn eto angen ei ddatblygu'n fframwaith trosfwaol perthnasol. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gwblhau'r gweithgaredd hwn cyn gynted â phosibl.

55 Mae trefniadau rheoli risg da, ac mae gwaith adnewyddu'r gofrestr risg gorfforaethol wedi'i gynnal. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod

y gwaith o drosglwyddo o gadw cofrestrau risg ar daenlenni i feddalwedd risg benodol yn digwydd ar gyflymder. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod â threfniadau rheoli perfformiad cadarn ac mae'r Adroddiad Perfformiad Integredig wedi'i ddiweddaru yn ei gwneud hi'n hawdd adnabod heriau a chynnydd.

56 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar waith i oruchwylio'r gwaith o weithredu'r dyletswyddau newydd o ran gonestrwydd ac ansawdd, ac i gynnal trosolwg a chraffu ar ansawdd a diogelwch. Ond mae bwlch yn y trosolwg ar y Cynllun Gweithredu Fframwaith Ansawdd Clinigol sydd heb ei dderbyn gan y Pwyllgor Profiad Cleifion, Ansawdd a Diogelwch ers rhai misoedd. Mae trefniadau da hefyd ar gyfer tracio cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio, fodd bynnag, mae oedi cyn cyflwyno'r broses tracio argymhellion i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) wedi golygu nad yw'r pwyllgor hwn wedi gweld cynnydd llawn wrth weithredu argymhellion archwilio.

## Dull corfforaethol o gynllunio

57 Ystyriodd fy ngwaith pa un a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o gynllunio. Talais sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:

- cynhyrchu a goruchwylio datblygiad strategaethau a chynlluniau corfforaethol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI); a
- goruchwylio'r gwaith o gyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol.

58 Canfu fy ngwaith er bod trefniadau cynllunio corfforaethol y Bwrdd Iechyd yn dda, nid yw wedi gallu cynhyrchu CTCI y gellir ei gymeradwyo.

59 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei ddull o ddatblygu ei gynlluniau. Mae'r strategaeth ddeng mlynedd yn parhau i fod ar waith, a sefydlwyd i osod y fframwaith ar gyfer y cynllun tair blynedd. Gwnaed cynnydd wrth gynyddu cyfranogiad Aelodau Annibynnol wrth gynhyrchu cynlluniau a strategaethau, gyda defnydd da o sesiynau datblygu'r Bwrdd. Fodd bynnag, er gwaethaf y trefniadau hyn, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu cynhyrchu CTCI cymeradwy ar gyfer 2023-2026. Yn hytrach, mae ganddo Gynllun Integredig ar gyfer 2023-2026 ac mae'n gweithio i Gynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2023-24 a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru.

60 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod â threfniadau da ar waith i fonitro'r gwaith o gyflawni ei gynlluniau a'i strategaethau, gyda'r Adroddiadau Perfformiad Integredig wedi'u diweddaru yn cael eu darparu bob yn ail fis ac Adroddiadau Cynnydd y Cynllun Integredig chwarterol yn rhoi sicrwydd cadarn i'r Bwrdd a'i bwyllgorau. Fodd bynnag, mae cyfle yn parhau i fodoli i'r Bwrdd Iechyd wneud cysylltiadau cliriach rhwng 'Canlyniadau Powys' yn ei gynllun tair blynedd a'i effeithiau mesuradwy yn ei Gynllun Cyflawni Blynyddol.

## Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

61 Ystyriodd fy ngwaith pa un a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o reoli ei adnoddau ariannol. Talais sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:

- cyflawni ei amcanion ariannol;
- goruchwylio cynllunio ariannol;
- goruchwylio rheolaeth ariannol; a
- goruchwylio perfformiad ariannol.

62 Canfu fy ngwaith er bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cadarn ar waith ar gyfer rheoli a monitro ei gyllid, mae ei sefyllfa ariannol yn gynyddol heriol.

63 Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswyddau ariannol refeniw ar gyfer 2022-23 ac mae'n rhagweld na fydd yn eu cyflawni eto yn 2023-24. Gan weithio i gyfanswm rheoli diffyg diwygiedig o £12 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn, roedd y Bwrdd Iechyd yn rhagweld y byddai'n cyrraedd ei darged rheoli diwedd blwyddyn ym Mis 10.

64 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull cadarn o gynllunio ariannol, gydag ymgysylltiad da â'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd Iechyd angen targed arbedion o £7.5 miliwn. Ym Mis 10, roedd y Bwrdd Iechyd wedi nodi cynlluniau arbed posibl gwerth cyfanswm o £11.5 miliwn, er y rhagwelwyd mai'r effaith gylchol fyddai £5.8 miliwn yn unig.

65 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar gyfer goruchwylio a chraffu ar reolaeth ariannol. Mae trefniadau cadarn hefyd yn parhau i fod ar waith ar gyfer monitro a chraffu ar ei sefyllfa ariannol, gydag adroddiadau cynhwysfawr sy'n ei gwneud hi’n hawdd adnabod heriau a risgiau.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

**Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf**

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyhoeddwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2023.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol | Gorffennaf 2023 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Gorffennaf 2023 |
| Barn ar Ddatganiadau Ariannol Cronfeydd Elusennol | Ionawr 2024 (i'w gadarnhau) |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Gwasanaethau Orthopedig yng Nghymru – Mynd i'r afael â'r ôl-groniad Rhestr Aros | Mawrth 2023 |
| Gwasanaethau Orthopedig yng Nghymru – Mynd i'r afael â'r Rhestr Aros Ôl-groniad: Darlun cymharol ar gyfer Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | Mawrth 2023 |
| Adroddiad Briffio ar Ddata ynghylch Gweithlu'r GIG | Medi 2023 |

| Adroddiad | Dyddiad |
| --- | --- |
| Adolygiad o Drefniadau Cynllunio'r Gweithlu | Chwefror 2024 |
| Asesiad Strwythuredig 2023 | Chwefror 2024 |
| **Arall** | |
| Cynllun Archwilio 2023 | Mai 2023 |

Roedd fy rhaglen ehangach o astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol yn 2023 yn cynnwys adolygiadau a oedd yn canolbwyntio ar y GIG a thestunau'r sector cyhoeddus cyfan. Ariennir yr astudiaethau hyn yn nodweddiadol drwy Gronfa Gyfunol Cymru ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gefnogi ei waith o graffu ar wariant cyhoeddus. Mae adroddiadau ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

**Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad yn dal ar y gweill**

Mae nifer o archwiliadau perfformiad sy'n dal ar y gweill yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiadau pan amcangyfrifir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
| --- | --- |
| Adolygiad Dilynol o Ofal Sylfaenol | Mawrth 2024 |
| Gofal heb ei drefnu: Llif allan o'r ysbyty – Rhanbarth Powys | Mawrth 2024 |
| Cynllunio Rhyddhau: Diweddariad Cynnydd | Mawrth 2024 |

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Adolygiad o Arbedion Ariannol | Mawrth 2024 |
| Gofal heb ei drefnu: Trefniadau ar gyfer Rheoli Mynediad | Gorffennaf 2024 |
| Adolygiad o Adferiad Gwasanaethau Gofal a Gynlluniwyd | Medi 2024 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Roedd Cynllun Archwilio 2023 yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig o £301,850 (ac eithrio TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar y sail bod rhywfaint o waith yn parhau i fynd rhagddo, yn unol â'r ffi a nodir yn yr amlinelliad.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio cyfrifon

**Arddangosyn 4: risgiau archwilio cyfrifon**

Roedd fy Nghynllun Archwilio 2023 yn nodi'r risgiau o gamddatganiad perthnasol a/neu afreoleidd-dra ar gyfer archwilio cyfrifon 2022-23 y Bwrdd Iechyd. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr ymdriniwyd â nhw fel rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r risg y gallai rheolwyr ddiystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. O ganlyniad i'r modd anrhagweladwy y gallai diystyru o'r fath ddigwydd, ystyrir bod hon yn risg arwyddocaol. [ISA 240.31-33]. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion yn y dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a<br>• gwerthuso'r sail resymegol dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i fusnes arferol. | Ar ôl ymgymryd â'r gwaith archwilio arfaethedig, ni ddaethom ni o hyd i unrhyw faterion sylweddol. |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
| --- | --- | --- |
| Mae risg sylweddol y byddwch yn methu â chyflawni eich dyletswydd ariannol gyntaf i fantoli'r cyfrifon dros gyfnod o dair blynedd. Mae'r sefyllfa ym mis 12 yn dangos diffyg diwedd blwyddyn a ragwelir o £7.5 miliwn.<br>Pan fyddwch yn methu o ran y ddyletswydd ariannol hon, byddwn yn rhoi adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol sy'n tynnu sylw at y methiant ac yn rhoi barn amodol ar eich rheoleidd-dra. | Byddwn yn canolbwyntio ein profion ar feysydd o'r datganiadau ariannol a allai gynnwys adroddiadau â thuedd. | Nid oedd ein profion yn nodi unrhyw adroddiadau â thuedd. |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Cynhaliwyd y gwaith prisio ystad y GIG bob pum mlynedd ar 1 Ebrill 2022.<br>Mae risg nad yw asedau'n cael eu prisio ar seiliau priodol ac na roddir cyfrif priodol am symudiadau yng ngwerthoedd cario ymlaen asedau na'u datgelu'n briodol.<br>O ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol, mae risg bellach fod gwerthoedd cario ymlaen asedau wedi newid yn ystod 2022-23 a bod prisiadau 1 Ebrill 2022 yn cael eu camddatgan yn berthnasol ar ddyddiad y fantolen. | Bydd fy nhîm archwilio:<br>• yn ystyried priodoldeb gwaith y Swyddfa Brisio fel arbenigwr rheoli;<br>• yn profi priodoldeb seiliau prisio asedau;<br>• yn adolygu sampl o symudiadau yng ngwerthoedd cario ymlaen er mwyn rhoi cyfrif am eu symudiadau a'u datgelu yn unol â'r Llawlyfr Cyfrifon;<br>• yn ystyried a yw gwerth cario ymlaen asedau ar 1 Ebrill 2022 yn parhau i fod yn briodol yn berthnasol neu a oes angen addasiadau ychwanegol yn ystod y flwyddyn oherwydd effaith yr amodau economaidd presennol. | Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw faterion perthnasol. |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
| --- | --- | --- |
| Mae risg bod y Bwrdd Iechyd yn methu â datgelu rhai trafodiadau a datgeliadau parti cysylltiedig neu ddatgelu'r trafodiadau hyn am y gwerth anghywir. | Byddwn yn adolygu cyflawnrwydd a chywirdeb y datgeliadau. | Nododd ein gwaith archwilio ddau sefydliad a ddatgelwyd yn gywir gan ddau unigolyn ar eu ffurflen Datganiad o Fuddiant, ond a oedd wedi'u hepgor yn anghywir o'r nodyn i gyfrifon.<br>Fe wnaethom hefyd nodi gwall mewnbwn rhwng trafodiadau a balansau a gynhwysir ar gyfer sefydliadau o fewn y nodyn parti cysylltiedig, a'r trafodiadau a'r balansau a gynhwysir yn y cyfriflyfr.<br>Newidiwyd yr holl faterion cyn llofnodi'r cyfrifon. |
| Bu gwallau hanesyddol yn natganiadau ariannol drafft y Bwrdd Iechyd, wrth ddatgelu cyflog Uwch Swyddogion ac aelodau Anweithredol o fewn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol. | Byddwn yn adolygu cyflawnrwydd a chywirdeb y datgeliadau. | Nododd ein harchwiliad nifer o ddiwygiadau yn ymwneud â chydnabyddiaeth ariannol uwch swyddogion, er mwyn sicrhau bod datgeliadau'n cydymffurfio â gofynion y fframwaith cyfrifyddu sylfaenol. |

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence in Welsh and English.